## ATODLEN 1

## SWYDDOGAETHAU CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

**13.** Ar ôl erthygl 11 mewnosoder—

"**Darpariaethau pellach ynghylch cyfarwyddiadau**

**11A.**—(1) Rhaid i gyfarwyddyd o dan erthygl 11 fod yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl y digwydd) gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff—

(a) o dan erthygl 11;

(b) o dan unrhyw ddeddfiad arall er mwyn gweithredu unrhyw rwymedigaeth UE neu rwymedigaeth ryngwladol sydd gan y Deyrnas Unedig,

cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r cyfarwyddyd, a rhaid iddynt drefnu bod copïau ar gael os gwneir cais amdanynt.

(3) Mae'r pŵer i roi cyfarwyddiadau o dan erthygl 11 yn cynnwys pŵer i amrywio'r cyfarwyddiadau neu eu dirymu.

(4) Os bydd Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amrywio neu'n dirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff er mwyn gweithredu unrhyw rwymedigaeth UE sydd gan y Deyrnas Unedig (boed o dan erthygl 11 ynteu o dan unrhyw ddeddfiad arall), rhaid iddynt—

(a) cyhoeddi'r amrywiad neu'r dirymiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;

(b) trefnu bod copïau o'r amrywiad neu'r dirymiad ar gael os gwneir cais amdanynt.

(5) Rhaid i'r Corff ac unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau'r Corff gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff o dan erthygl 11 neu unrhyw ddeddfiad arall.

(6) Wrth benderfynu—

(a) ar unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad gan y Corff, neu atgyfeiriad neu adolygiad ar benderfyniad gan y Corff, neu

(b) ar unrhyw gais a drosglwyddir o'r Corff,

mae'r person sy'n gwneud y penderfyniad wedi ei rwymo gan unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11 neu unrhyw ddeddfiad arall i'r un graddau â'r Corff."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 13 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, Paragraff 13.